**LGH-01-02 (min)**

## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

**Dyddiad:** Dydd Mercher 16 Ionawr 2002

**Amser:** 2.00pm hyd 5.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Norma Barry | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Lynne Schofield | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Paul Pan | Yr Uned Gostwng Lefel Troseddu |

| | |
|---|---|
| Vince Armstrong | Gwasanaeth Tân De Cymru |
| Adrian Gough | Heddlu De Cymru |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

Dywedodd y Cadeirydd fod gohebiaeth oddi wrth Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a Phrif Arolygydd Gwasanaeth Tân EM wedi ei chylchredeg i'r Aelodau.

Cytunwyd y dylid gwahodd y Gwasanaeth Tân i wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor fel rhan o'i adolygiad polisi ar adfywio cymunedol.

Onid oedd dyddiad arall hwylus ar gael, cytunodd y Pwyllgor y dylid gwneud cais i'r Pwyllgor Busnes am ddefnyddio'r sesiwn anffurfiol a neilltuwyd ar 7 Chwefror i dderbyn tystiolaeth lafar bellach ar gyfer yr adolygiad polisi.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Edwina Hart. Ar ran y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog ei bod am gyfleu ei gydymdeimlad â'r Gweinidog ar ei phrofedigaeth deuluol yn ddiweddar.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaed y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Aelod o Gyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac yn feddyg teulu;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

## Eitem 3: Cyflwyniad ar Fapio Data a Gostwng Lefel Troseddu

3.1 Dywedodd Paul Pan fod yr Uned Gostwng Lefel Troseddu wrthi ar hyn o bryd yn datblygu seilwaith gwybodaeth newydd ar y cyd â'r Swyddfa Gartref i gynorthwyo'r asiantaethau a'r partneriaethau sy'n ymwneud â gostwng lefel troseddu. Byddai'r seilwaith hwn yn golygu bod modd cyfnewid data a rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol. Byddai'n caniatáu i asiantaethau a phartneriaethau weithio'n fwy agos â'i gilydd i lunio polisïau cryf i ostwng lefel troseddu, a'r rheini wedi'u seilio ar dystiolaeth bendant.

3.2 Dywedodd mai proses datrys problemau yw gostwng lefel troseddu yn bennaf, a'i bod yn golygu nodi problemau, dadansoddi'r wybodaeth a llunio atebion effeithiol. Roedd mapio data yn cael ei ddatblygu fel arf i gynorthwyo yn y broses gymhleth hon. Gellid defnyddio data manwl o amrywiaeth o ffynonellau i nodi'r patrymau gweithgarwch troseddol sy'n dod i'r amlwg a helpu i bennu pa ffactorau sy'n effeithio ar droseddu.

3.3 Byddai datblygu'r seilwaith gwybodaeth newydd, gan gynnwys mapio data, yn hwyluso dull mwy rhagweithiol o ymdrin â gostwng lefel troseddu. Byddai'n galluogi asiantaethau a phartneriaethau i ymyrryd cyn gynted â phosibl ac yn helpu i ddarparu atebion a fyddai'n atal troseddu.

3.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd y Pwyllgor yn cefnogi datblygu'r seilwaith gwybodaeth newydd. Teimlai y gallai mapio data fod yn arf effeithiol er mwyn gostwng lefel troseddu a hybu dull mwy rhagweithiol o ymdrin ag atal troseddu.

- Cytunai'r Aelodau mai dull amlasiantaethol, a fabwysiadwyd gan y Partneriaethau Gostwng Lefel Troseddu ac Anhrefn a sefydlwyd gan bob awdurdod lleol ar draws Cymru, oedd y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â throseddu. Nodwyd bod y partneriaethau i gyd yn cynnwys Swyddog Diogelwch Cymunedol wedi'i enwi.

- Awgrymwyd y gallai'r Partneriaethau Troseddu ac Anhrefn ddefnyddio mapio data, a mapio troseddau treisgar yn arbennig, i lywio'r gwaith o gynllunio patrwm trefi a dylunio adeiladau. Gallai hyn helpu i leihau'r risg y byddai troseddau yn cael eu cyflawni, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.

- Croesawai'r Aelodau gydweithrediad y Partneriaethau, yn enwedig yng Ngogledd Cymru. Roedd hynny wedi cyfrannu at ddatblygiad llwyddiannus y seilwaith gwybodaeth newydd. Byddai'n bwysig amlygu rôl a manteision posibl mapio data ym maes gostwng lefel troseddu er mwyn annog asiantaethau i wirfoddoli data. Byddai datblygu un ffynhonnell ddata gyfunol yn goleuo gwaith cynllunio strategol ac yn galluogi asiantaethau i dargedu adnoddau yn effeithiol.

- Nododd y Pwyllgor fod archwiliadau Troseddu ac Anhrefn yn cael eu cynnal bob tair blynedd ar hyn o bryd. Pwysleisiodd Paul Pan yr angen i ddiweddaru data'n rheolaidd er mwyn darparu gwybodaeth gywir, y gellid ei defnyddio'n effeithiol i fynd i'r afael â throseddu.

- Teimlai'r Aelodau y gallai mapio data fod o gymorth yn y broses o adfywio cymunedau. Awgrymwyd hefyd y byddai Partneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, sy'n cael eu sefydlu i dywys y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ei blaen, yn elwa o ymwneud yr heddlu a'r gwasanaeth tân.

3.5 Diolchodd y Cadeirydd i Paul Pan a chynrychiolwyr yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân am y cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 4: Gwerthusiad Interim o'r Rhaglen Pobl mewn Cymunedau:**

**(LGH-01-02 (p.2)**

4.1 Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y rhaglen Pobl mewn Cymunedau wedi ei chynllunio i ddangos sut y gallai cymunedau sydd â diffyg mantais gyflawni newid cadarnhaol. Dywedodd fod yr adroddiad gwerthuso interim yn nodi rhai llwyddiannau mawr yn ogystal â nifer o ddiffygion yn y rhaglen. Cafodd canfyddiadau'r adroddiad eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad gwerthuso interim ar y rhaglen Pobl mewn Cymunedau a'r llwyddiant a gafwyd o ganlyniad i'r drefn a fabwysiadwyd gan y rhaglen. Cytunai'r Aelodau y byddai gofyn dysgu o ddiffygion y rhaglen a rhoi sylw i'r rhain yng nghyd-destun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

- Wrth ymdrin ag adfywio cymunedol yn y dyfodol, yn enwedig y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, teimlid y dylid annog gweithredu arloesol a chymryd risg. Drwy hynny byddid yn gwneud i ffwrdd â'r stigma sydd ynghlwm wrth fethiant ac yn annog prosiectau i gymryd rhan yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â gallu Rhoi Cymunedau'n Gyntaf i newid y ffordd y mae gwasanaethau prif ffrwd yn cael eu cyflenwi, er mwyn iddynt ateb anghenion cymunedau difreintiedig. Teimlid y byddai llwyddiant wrth gyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol yn dibynnu'n helaeth ar fabwysiadu trefn gydlynus, ac mae'n rhaid wrth ymrwymiad o du cynrychiolwyr y sector statudol er mwyn gwireddu hynny. Awgrymwyd y dylai pob Partneriaeth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf gynnwys cynrychiolydd penodedig o'r awdurdod lleol sydd â'r grym i ddylanwadu'n wirioneddol ar y modd y cyflenwir gwasanaethau.

Nododd yr Aelodau fod y Bwrdd Polisi Adfywio Cymunedol a Chynhwysiant Cymdeithasol wedi ei sefydlu i roi cyngor yngln â chyfeiriad strategol rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ddiffyg mantais cymdeithasol. Byddai'r Bwrdd yn sicrhau yr ymdrinnid ag adfywio cymunedol mewn modd cydlynus.

- Teimlai'r Aelodau y byddai'n bwysig cadw hyblygrwydd yn y drefn gyllido er mwyn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol. Rhagwelid y byddai'r Cydlynydd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn hwyluso gweithio di-fwlch ar lefel leol ac yn helpu Partneriaethau i ganfod a sicrhau mynediad at ffynonellau cyllido priodol wrth iddynt ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Cymunedol.

- Cytunai'r Aelodau y byddai'n bwysig addasu'r rhaglenni dros amser er mwyn adlewyrchu newid a phrofiad. Nodwyd mai dogfen waith yw'r canllawiau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a fyddai'n cael ei hadolygu'n barhaus. Byddai'n rhaid i'r Cynulliad weithio'n agos gyda Phartneriaethau a Chydlynwyr Rhoi Cymunedau'n Gyntaf er mwyn rheoli newid. Yn ogystal, rhagwelid y byddai Rhwydwaith Cefnogi Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn chwarae rhan allweddol yn lledaenu'r arferion gorau ac yn cynorthwyo'r Partneriaethau i rannu eu profiad.

- Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu manylion y dangosyddion a ddefnyddiwyd i lunio'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog.

- Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu gwybodaeth bellach am Rwydwaith Cefnogi Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

**Eitem 5: Adolygiad Polisi ar Adfywio Cymunedol:**

**Sesiwn Ymgynghori Lafar**

5.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Lynda Bransbury o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gareth Hall o Awdurdod Datblygu Cymru a Margaret Jervis a Graham Benfield o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i roi eu cyflwyniadau.

5.2 Cododd Lynda Bransbury y pwyntiau canlynol:

- Roedd CLlLC yn cymeradwyo'r egwyddor adfywio fesul ardal y seiliwyd y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf arni. Fodd bynnag, byddai'n bwysig canfod ffyrdd o ymestyn y rhaglen i gynnwys grwpiau sy'n fwy anodd i'w diffinio, er enghraifft, Cymunedau sydd â Diddordebau Cyffredin.

- Dylai'r Cynulliad nodi ffyrdd priodol o gynorthwyo cymunedau difreintiedig sydd wedi methu elwa o raglenni a fwriadwyd i fynd i'r afael ag amddifadedd.

- Croesawai CLlLC y drefn weithredu o'r gwaelod i fyny a fabwysiadwyd gan Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Fodd bynnag, byddai'n rhaid annog perchenogaeth o fewn cymunedau a dysgu gwersi gan gymunedau yngln â'u blaenoriaethau.

- Roedd CLlLC yn pryderu nad oedd sylw digonol wedi ei roi i rôl ganolog llywodraeth leol o fewn adfywio cymunedol. Byddai angen harneisio rôl strategol yr awdurdodau lleol er mwyn sicrhau'r màs gofynnol a helpu i sefydlu cynaliadwyedd. Roedd pwerau newydd awdurdodau lleol i hyrwyddo lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, a'u dyletswydd i ddatblygu strategaethau cymunedol yn cynnig fframwaith i'w rôl fel arweinwyr effeithiol yn y broses adfywio.

- Teimlid bod awdurdodau lleol yn chwarae rôl holl-bwysig yn ysgogi diddordeb o fewn cymunedau difreintiedig. Roeddent yn cynorthwyo cymunedau i feithrin gallu a chyrchu at gyllid priodol. Roedd gan awdurdodau lleol rôl gydlynu i'w chwarae yn tywys y gymuned yn ei blaen a gellid eu hystyried yn gatalydd i'r broses adfywio.

- Codwyd pryder nad yw lefel y cyllid a ddarparwyd yng Nghymru i gynorthwyo gydag adfywio cymunedol yn cyfateb i'r dyraniadau a wnaed yn Lloegr i symud y cynlluniau adnewyddu cymdogaeth cyffelyb yn eu blaen.

- Teimlai CLlLC fod y llu o ffynonellau cyllido wedi'u cyfuno â phrosesau ymgeisio cymhleth a maith yn rhwystr sylweddol rhag i brosiectau ddod yn rhan o adfywio cymunedol. Arweiniai hyn at ddefnydd aneffeithlon o amser ac adnoddau yn llunio cynigion a gwneud ceisiadau. Awgrymwyd y byddai cynyddu'r ddarpariaeth gyllido i gyfnod pum mlynedd o leiaf yn help i oresgyn rhwystrau a lleihau aneffeithlonrwydd o'r math hwn.

- Awgrymwyd bod defnyddio grantiau penodol i gyllido ffyrdd arloesol o weithio yn mynd yn wrthgynhyrchiol. Byddai'n bwysig darparu cyllid ar gyfer gwaith sy'n adeiladu ar ac yn gwella prosiectau sy'n bodoli'n barod yn ogystal â'r rheini sy'n mabwysiadu arferion a rennir sydd wedi profi eu llwyddiant.

- Nododd CLlLC fod angen ceisio ffyrdd o ddenu cyllid amgen ar raddfa fawr er mwyn sicrhau adfywio llwyddiannus a chynaliadwy. I gyflawni hyn byddai gofyn i'r Cynulliad annog cyrff lleol a rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau adfywio hirdymor ar y cyd.

- Codwyd pryder fod hyrwyddo dulliau arloesol o ymdrin ag adfywio, gan gynnwys cymryd risg, yn peri gwrthdaro rhwng buddiannau i awdurdodau lleol o gofio'u hatebolrwydd democrataidd a'u rhwymedigaethau statudol o dan y gyfundrefn Gwerth Gorau.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cydnabyddai'r Pwyllgor y gallai partneriaethau lleol elwa o'r proffesiynoldeb a'r arbenigedd sy'n bodoli o fewn llywodraeth leol. Awgrymwyd mai rôl llywodraeth leol yw gwasanaethu

partneriaethau, yn hytrach na'u rheoli.

- Cytunai'r Aelodau fod yn rhaid i awdurdodau lleol gymryd blaenoriaethau'r gymuned i ystyriaeth wrth dywys strategaethau datblygu cymunedol a chynlluniau eraill yn eu blaen. Câi hyn ei gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau a mabwysiadu dull gweithredu o'r gwaelod i fyny. Awgrymwyd y dylai rhaglenni adfywio fod yn rhan annatod o strategaethau cymunedol – ystyrir mai'r rhain yw'r cynllun hollgwmpasog i'r gymuned.

- Nododd y Pwyllgor fod buddsoddi yn y seilwaith sy'n gwasanaethu cymunedau a'i ddatblygu o'r pwys pennaf er mwyn cyflawni adfywio cynaliadwy.

5.4 Cododd Gareth Hall y pwyntiau canlynol:

- Roedd prif rôl yr Awdurdod Datblygu, sef datblygu economaidd, yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at y broses adfywio a gallai helpu i wireddu cymunedau cynaliadwy.

- Mae ymwneud yr Awdurdod Datblygu mewn adfywio cymunedol wedi'i seilio ar nifer o egwyddorion, sef: yr angen am fewnbwn llawn y gymuned wrth ddatblygu a gweithredu cynllun cyfannol; yr angen i weithredu'n effeithiol drwy bartneriaeth; a'r angen am ymrwymiad hirdymor y partïon dan sylw.

- Roedd yr Awdurdod Datblygu wedi datblygu pecyn cyfarpar hyblyg i gynorthwyo yn y gwaith o adfywio cymunedau. Seiliwyd y pecyn ar yr arferion gorau a sefydlwyd drwy Fenter y Trefi Marchnad yn y Canolbarth, Menter y Pentrefi a'r Trefi Bach ac Ardal y Llechen yn y Gogledd a'i gefnogaeth i'r grwpiau LEADER. Gellid defnyddio'r pecyn cyfarpar hwn ar wahanol adegau o'r broses adfywio a arweinir gan y gymuned.

- Roedd yr Awdurdod Datblygu yn darparu cyllid i helpu i greu'r gallu o fewn y gymuned i ddatblygu partneriaethau lleol ac i gynllunio ac ennyn cyfraniad y gymuned ehangach drwy weithgareddau cymdeithasol ac economaidd; i gynorthwyo â'r gost o gyflogi swyddog datblygu a chymorth hyfforddi i wirfoddolwyr lleol; ac i ddarparu cymorth ar ffurf arolygon, astudiaethau a gwasanaeth ymgynghorwyr wrth baratoi cynlluniau adfywio.

- Teimlai'r Awdurdod Datblygu fod buddsoddi mewn seilwaith, gan gynnwys TGCh, yn bwysig wrth symud adfywio cymunedol yn ei flaen.

- Roedd angen datblygu dangosyddion perfformiad newydd, ac ystyr iddynt, i fesur hynt adfywio cymunedol. Dylai'r dangosyddion hyn fesur llwyddiant yn y tymor byr a'r tymor hir.

5.5 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nododd y Pwyllgor fod yr Awdurdod Datblygu wedi dangos ei barodrwydd i ymdrin â chyllido mewn modd hyblyg drwy ddefnyddio cyllidebau prif ffrwd mewn modd arloesol i

gynorthwyo prosiectau a fwriedir i adfywio cymunedau. Ar hyn o bryd caiff mwyafrif cyllideb yr Awdurdod Datblygu ei wario ar fuddsoddi ar y lefel leol. Byddai hyn o reidrwydd yn cyfrannu at y broses adfywio.

- Teimlid bod y fforymau economaidd yn chwarae rôl o bwys mewn adfywio cymunedol ar lefel ranbarthol. Gallai sectorau presennol y fforymau helpu i restru ac asesu blaenoriaethau rhanbarthol, yn enwedig y buddsoddiad sy'n ofynnol o fewn y seilwaith rhanbarthol.

5.6 Cododd Margaret Jervis y pwyntiau canlynol:

- Teimlai CGGC ei bod yn holl-bwysig cydnabod rôl amhrisiadwy'r sector gwirfoddol mewn adfywio cymunedol. Rhoddai gwirfoddoli gyfle delfrydol i unigolion ddod yn rhan o'u cymuned leol.

- Hyd yma bu adfywio cymunedol a oedd yn ddibynnol ar gyllid prosiect yn aflwyddiannus gan mwyaf wrth geisio mynd i'r afael ag amddifadedd. Roedd angen cyllid hirdymor a buddsoddi parhaus er mwyn ymdrin ag amddifadedd ac adfywio cymunedau.

- Tynnodd CGGC sylw at yr angen i ddatblygu dulliau gwerthuso effeithiol ar gyfer rhaglenni adfywio cymunedol. Byddai'r rhain yn gymorth i ganfod diffygion ac arferion da yn fuan.

- Pwysleisiodd CGGC rôl cymunedau lleol yn y broses adfywio. Teimlid mai pobl leol sydd yn y sefyllfa orau i nodi anghenion a blaenoriaethau eu cymunedau. Byddai'n rhaid sefydlu partneriaethau gwirioneddol, teg a rhoi llais i gymunedau lleol yn y broses benderfynu.

5.6 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r gyfundrefn gyllido bresennol a'r angen i gyflwyno cyllid hirdymor ar gyfer rhaglenni sy'n anelu at adfywio cymunedau. Roedd yna gytundeb cyffredinol fod angen ystyried cyllido hirdymor. Fodd bynnag, byddai'n rhaid parhau i adolygu'r cyllid ar sail gylchol er mwyn cymryd anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol i ystyriaeth.

- Codwyd pryder y gallai oedi o ran cyrchu at gyllid oherwydd y prosesau ymgeisio maith arwain at anfodlonrwydd a difaterwch maes o law o fewn cymunedau lleol. Roedd CGGC wrthi ar hyn o bryd yn datblygu dulliau arloesol o gynyddu effeithlonrwydd y broses o gyflwyno ceisiadau i'r Gronfa Risg Gymdeithasol Ewropeaidd.

- Cytunai'r Pwyllgor mai'r partneriaethau a sefydlir yn ôl yr egwyddor o ‘dri thraean’ fyddai'r rhai mwyaf effeithiol. Rhaid oedd hybu cydraddoldeb rhwng y sectorau o fewn y partneriaethau hyn ac osgoi gweithredu er mwyn sioe yn unig.

5.7 Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am eu cyflwyniadau i'r Pwyllgor ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

## Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr: LGH-16-01 (min)

7. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 5 Rhagfyr.

## Crynodeb o'r pwyntiau gweithredu

- Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu manylion y dangosyddion a ddefnyddiwyd i lunio'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog.
- Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu gwybodaeth bellach am Rwydwaith Cefnogi Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.